

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Yr Adran
# Astudiaethau Gwybodaeth

**Gwybodaeth bwysig**

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir yn y llyfryn hwn am y rhaglenni gradd yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w argraffu (Tachwedd 2020), ond gellid ei newid. Cyn gwneud cais, rydym yn cynghori darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs gan gynnwys ein gofynion mynediad, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.

FfRhA Aur
Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu

THE TIMES THE SUNDAY TIMES CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2019
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN AR GYFER ANSAWDD Y DYSGU

THE TIMES THE SUNDAY TIMES CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2020
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN YNG NGHYMRU

**Yr Adran Astudiaethau Gwybodaeth**
P5, Campws Penglais,
Prifysgol Aberystwyth,
Cymru,
SY23 3UX

+44 (0) 1970 622189
dis-dept@aber.ac.uk

Informationstudies
@infostudiesaber

# Cynnwys

3 Croeso
4 Pam astudio gyda ni?
6 Ein ymchwil
8 Cyrsiau Israddedig
14 Cyrsiau Uwchraddedig
20 Dysgu o bell
22 Cyrsiau ar-lein
24 Cyfleoedd astudio dramor





# Croeso

Croeso i'r Adran Astudiaethau Gwybodaeth (DIS). Anoush Simon, Pennaeth yr Adran ydw i. Mae gan yr Adran dros 50 mlynedd o brofiad o gynnig addysg a hyfforddiant rhagorol i'r proffesiwn gwybodaeth, yn cynnwys 30 mlynedd o brofiad dysgu o bell.

Rydyn ni'n cynnig amrywiaeth o gyrsiau ar y campws a chyrsiau dysgu o bell, yn cynnwys:

- Graddau israddedig, Meistr a PhD
- Graddau dysgu o bell, er mwyn i chi astudio am gymhwyster proffesiynol yn y gweithle (dros 2 – 5 mlynedd)
- Cyrsiau ar-lein byr ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Rydyn ni'n cynnig amrywiaeth o gyrsiau uwchraddedig yn cynnwys Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth, Archifau a Rheoli Cofnodion, Cadwraeth Ddigidol a Churadu Digidol.

Caiff ein holl raddau uwchraddedig eu hachredu'n broffesiynol gan Sefydliad Siartredig y Llyfrgellwyr a Gweithwyr Gwybodaeth (CILIP) a/neu Gymdeithas Archifau a Chofnodion y DU ac Iwerddon (ARA).
Cawn ein cydnabod hefyd yn Ddarparwr Dysgu ar ran CILIP yn cyflwyno cyrsiau DPP. Mae hyn yn golygu y gallwch fod yn hyderus y cewch addysg ragorol, ynghyd â chymorth academaidd o'r radd flaenaf a chymhwyster wedi'i achredu'n broffesiynol ar ddiwedd eich astudiaethau.

I ategu arbenigedd y staff ceir cysylltiadau proffesiynol clos yn lleol ac yn genedlaethol. Caiff cyfraniadau eu gwneud i'r addysgu, gwaith ymarferol a phrosiectau ymchwil gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru, swyddfeydd cofnodion lleol, gwasanaethau llyfrgell y Brifysgol, a sefydliadau cof cenedlaethol fel Casgliad Wellcome a'r Llyfrgell Brydeinig, yn ogystal â chyd-aelodau'r Gynghrair Cadwraeth Ddigidol.

Edrychaf ymlaen at eich croesawu i'n Hadran yn y dyfodol.

**Dr Anoush Simon**
**Pennaeth Adran**

# Pam astudio gyda ni?

Mae llawer o fanteision yn deillio o astudio gyda ni, gan gynnwys arbenigedd pwnc a phroffesiynol ac amgylchedd astudio cynhwysol, cefnogol, pa bynnag ffordd rydych chi'n dewis astudio.

## Myfyrwyr ar y campws:

- Gwarant o lety yn y flwyddyn gyntaf
- Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru, llyfrgell hawlfraint sydd hefyd yn arwain y ffordd o ran digido deunydd archif, y drws nesaf i'r campws
- Cysylltiadau proffesiynol â llawer o sefydliadau'n ymwneud â gwybodaeth fel Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Archifau Ceredigion ac Amgueddfa Ceredigion
- Cyfleusterau cyfrifiadura helaeth, rhai â mynediad 24/7
- Canolfan y Celfyddydau ar y campws, un o'r lleoliadau mwyaf yng Nghymru gyda theatr, sinema, oriel a mwy
- Cyfleusterau chwaraeon rhagorol yn cynnwys aelodaeth platinwm am ddim i ganolfan chwaraeon y brifysgol ar gyfer y rhai sy'n byw yn llety'r Brifysgol
- Lle diogel, cyfeillgar a bywiog i astudio ynddo
- Lleoliad arfordirol, a digon o gefn gwlad o gwmpas.

## Myfyrwyr dysgu o bell

- Profiad sylweddol ac enw da rhyngwladol am arbenigedd dysgu o bell
- Cyrsiau hyblyg yn canolbwyntio ar y myfyriwr wedi'u cynllunio i gyd-fynd â bywyd gwaith prysur
- Tîm Dysgu Agored arbenigol i gynorthwyo myfyrwyr a datblygu rhaglenni dysgu o bell o ansawdd uchel
- Amgylchedd Dysgu Rhithwir Pwrpasol
- Ysgolion astudio preswyl byr sy'n cynnig sylfaen a dechrau rhagorol i'ch astudiaethau
- Adnoddau llyfrgell ac electronig wedi'u teilwra i ddysgu o bell, yn cynnwys mynediad at adnoddau electronig a phrint a ddarperir gan y Llyfrgell
- Mynediad at holl wasanaethau'r Brifysgol fel Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr, y Gwasanaeth Gyrfaoedd a'r Gwasanaeth Lles Myfyrwyr.





# Ein hymchwil

Mae ein gweithgarwch ymchwil yn ymwneud â materion sy'n gysylltiedig â gallu unigolion, sefydliadau a chymdeithasau i gael gafael ar wybodaeth, ei rheoli, ei threfnu a'i hadalw mewn oes ddigidol gynyddol gymhleth ac amrywiol.

Mae pynciau cyfoes yn ymwneud ag eiddo deallusol, hunaniaeth, cof diwylliannol, curadu, cyfathrebu a dyfodol gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth mewn oes ddigidol. Mae arloesi a datblygiadau digidol, y cyfryngau cymdeithasol, y we 2.0 a thu hwnt, y potensial ar gyfer 'archif ddiddiwedd' a newidiadau cysylltiedig yn y ffordd y mae pobl a sefydliadau yn rhyngweithio, yn agor cyfleoedd a heriau newydd i lyfrgelloedd, gwasanaethau gwybodaeth, amgueddfeydd ac archifau.

Mae themâu ymchwil yr Adran yn cynnwys

- **Gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth:** rheoli gwybodaeth sefydliadol ac adnoddau gwybodaeth mewn oes ddigidol sy'n fwyfwy cymhleth.
- **Trefnu Gwybodaeth:** semioteg strwythurau gwybodaeth ac egwyddorion adalw gwybodaeth.
- **Agweddau Cymdeithasol, Diwylliannol ac Ymddygiadol Gwybodaeth:** gwybodaeth mewn cymdeithasau rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang, yn cynnwys pynciau eiddo deallusol, cof diwylliannol, hunaniaeth, cyfathrebu a chreadigrwydd mewn oes ddigidol.

Un maes ymchwil newydd yw curadu digidol sy'n cynnwys prosesau trefnu, pensaernïaeth dechnegol, safonau cymdeithasol a chreu polisïau – sef agweddau sy'n ofynnol ar gyfer rheoli cylch bywyd deunyddiau digidol.

Mae gan staff yr Adran swyddi golygyddol mewn cyfnodolion academaidd a chyfresi llyfrau, gan gynnwys: Archives and Records: the Journal of the Archives and Records Association; ASLIB Proceedings; Digital Preservation Coalition's Technology Watch Series; International Journal of Information Management; Journal of Information Science; Library and Information Research; Library Review; New Library World; New Review of Information Behaviour Research; Open Information Science; Performance Measurement and Metrics: The International Journal for Library and Information Services; Public Library Quarterly; a The Electronic Library.





# Cyrsiau Israddedig


> Astudiaethau Gwybodaeth
> Astudiaethau Treftadaeth Ddiwylliannol
> Rheoli Gwybodaeth
> Cyfrifiadureg a Gwyddor Gwybodaeth




# Astudiaethau Gwybodaeth

## BSc (Anrh)

Bydd y radd hon ar gael fel cwrs anrhydedd cyfun gyda hanes, neu gydag astudiaethau'r cyfryngau a chyfathrebu. Oes gennych chi ddiddordeb mewn gyrfa yn y sectorau gwybodaeth, llyfrgelloedd ac archifau? Bydd y radd hon yn rhoi ichi sylfaen eang o wybodaeth a sgiliau er mwyn gallu: deall sut mae gwybodaeth yn cael ei threfnu a'i defnyddio, a'r rôl y mae'n ei chwarae mewn cymdeithas; gallu penderfynu a yw gwybodaeth yn ddibynadwy neu'n 'wir'; deall sut i reoli'r symiau aruthrol o wybodaeth sy'n cael eu creu yn ddigidol.

Os ydych chi hefyd yn caru darllen ac ymchwil, a bod arnoch eisiau ymgorffori'r diddordebau hyn yn eich gyrfa i'r dyfodol, gan ddefnyddio'r sgiliau hyn i helpu pobl eraill i ganfod gwybodaeth, dyma'r radd i chi.

Bydd y cynllun hwn yn rhoi cyflwyniad eang ichi i faes Astudiaethau Gwybodaeth, ynghyd â gwybodaeth am hanes neu astudiaethau'r cyfryngau a chyfathrebu. Byddwch mewn sefyllfa dda i symud ymlaen i amrywiaeth o yrfaoedd neu astudiaethau pellach, yn enwedig cymwysterau Meistr ag achrediad proffesiynol mewn Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth, Rheoli Archifau a Chofnodion, neu Guradu Digidol.

Ymhlith y cyfleoedd i fyfyrwyr Astudiaethau Gwybodaeth yn Aberystwyth mae:

- cael eich dysgu gan arbenigwyr yn eu maes, mewn Adran a chanddi enw da yn rhyngwladol ers tro byd am addysgu ac ymchwil ym maes astudiaethau gwybodaeth
- astudio mewn tref a chanddi hanes toreithiog ym maes gwybodaeth ac ystod o gyrff diwylliannol y mae gan yr Adran Rheoli Gwybodaeth, gysylltiadau agos â hwy, gan gynnwys: Llyfrgell Genedlaethol Cymru (un o bum llyfrgell hawlfraint y DU), Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru, swyddfeydd archifau a chofnodion lleol ac Amgueddfa Ceredigion.

**Cyflogadwyedd**

Bydd graddedigion y cynllun hwn nid yn unig wedi'u paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i yrfaoedd yn y sector llyfrgelloedd ac archifau, ond hefyd i swyddi sy'n gysylltiedig â gwybodaeth yn y sectorau busnes, diwylliant ac nid er elw.

## Modiwlau

Isod ceir rhestr sy'n amlinellu'r modiwlau craidd y gellir eu hastudio ar y cwrs yma.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Foundations of Information Studies
- Human Communication
- The Archival Inheritance.

**Yr ail flwyddyn:**

- Information in a Changing World
- Information Behaviour and Digital Literacy
- Records Revolutions: a Cultural History of Recordkeeping.

**Y drydedd flwyddyn:**

- Collection Management and Development in Heritage Organisations
- Extended Project.

Sylwch, yn ystod eich ail a'ch trydedd flwyddyn, y byddwch yn gallu dewis o blith detholiad o fodiwlau dewisol a fydd yn ategu eich modiwlau craidd.

**Math o radd:** BSc.

**Côd UCAS:** P110.

**Hyd:** 3 blynedd.

# Astudiaethau Treftadaeth Ddiwylliannol

## BSc (Anrh)

Bwriad y radd newydd hon yw eich cyflwyno i'r agweddau ar y proffesiynau llyfrgell, archif a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â threftadaeth ddiwylliannol.

**A yw'r meysydd canlynol o ddiddordeb i chi?**

- sut mae gwybodaeth yn cael ei threfnu a'i defnyddio, a'r rôl y mae'n ei chwarae mewn cymdeithas
- chwilio am wybodaeth a helpu eraill i ganfod gwybodaeth
- sut mae ein treftadaeth a'n gwybodaeth yn cael eu storio, eu rhannu a'u diogelu
- deall sut i ymdrin â'r symiau aruthrol o wybodaeth sy'n cael eu creu yn y byd digidol
- hanes, ac yn enwedig felly ddogfennau, gwrthrychau ac arteffactau sy'n dod â hanes yn fyw.

Os ydych chi hefyd yn caru darllen ac ymchwil, a bod arnoch eisiau ymgorffori'r diddordebau hyn yn eich gyrfa i'r dyfodol, gan ddefnyddio'r sgiliau hyn i helpu pobl eraill i ganfod gwybodaeth, dyma'r radd i chi.

Byddwch yn dysgu am reoli a defnyddio gwybodaeth, adnoddau treftadaeth, archifau a chofnodion ar ffurfiau digidol ac fel arall.

Ymhlith y cyfleoedd yn Aberystwyth i fyfyrwyr Astudiaethau Treftadaeth Ddiwylliannol mae:

- cael eich dysgu gan arbenigwyr yn eu maes, mewn adrannau a chanddynt enw da yn rhyngwladol ers tro byd am addysgu ac ymchwil ym maes astudiaethau gwybodaeth, a hanes a hanes Cymru
- astudio mewn tref a chanddi hanes toreithiog ym maes gwybodaeth ac ystod o gyrff diwylliannol y mae gan yr Adran Rheoli Gwybodaeth, gysylltiadau agos â hwy, gan gynnwys: Llyfrgell Genedlaethol Cymru (un o bum llyfrgell hawlfraint y DU), Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru, swyddfeydd archifau a chofnodion lleol ac Amgueddfa Ceredigion.

**Cyflogadwyedd**

Bydd graddedigion y cynllun hwn nid yn unig wedi'u paratoi'n dda ar gyfer dilyn gyrfaoedd yn y sector treftadaeth, gan gynnwys llyfrgelloedd ac archifau, ond hefyd ar gyfer swyddi yn ymwneud â gwybodaeth yn y sectorau busnes, diwylliant ac nid er elw. Byddwch mewn sefyllfa dda i symud ymlaen i astudiaethau pellach, yn enwedig cymwysterau Meistr ag achrediad proffesiynol mewn Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth, Rheoli Archifau a Chofnodion, neu Guradu Digidol.

### Modiwlau

Isod ceir rhestr sy'n amlinellu'r modiwlau craidd y gellir eu hastudio ar y cwrs yma.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Foundations of Information Studies
- The Cultural Heritage Landscape
- Human Communication
- The Archival Inheritance
- Introduction to History.

**Yr ail a'r dryddedd flwyddyn:**

- Information in a Changing World
- A Cultural History of Record Keeping
- Resource Discover and Digital Information Management
- Collection Management and Heritage Organisations
- Llunio Hanes/Making History
- Local Studies and Community Heritage.

Sylwch, yn ystod eich ail a'ch trydedd flwyddyn, y byddwch yn gallu dewis o blith detholiad o fodiwlau dewisol a fydd yn ategu eich modiwlau craidd.

**Math o radd:** BSc.

**Côd UCAS:** V700.

**Hyd:** 3 blynedd.

# Rheoli Gwybodaeth

## BA (Anrh)

Diben y radd hon yw eich cyflwyno i'r agweddau gwybodaeth a digidol ar yr amgylchedd rheoli a busnes. Fe'i cynlluniwyd i gwrdd â heriau byd lle mae creu, defnyddio, rheoli ac effaith cynnwys digidol a thechnoleg gwybodaeth yn fwyfwy pwysig. Mae gwybodaeth a data yn allweddol i fywyd yn yr 21ain ganrif - yn y gweithle, ym myd busnes, yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ac wrth reoli materion pob dydd megis addysg ac iechyd.

Yn y byd ar-lein, mae deall y gwahanol fathau o wybodaeth sydd ar gael, a sut maent yn cael eu trefnu, eu canfod, eu defnyddio a'u gwerthuso, yn allweddol i lwyddiant unrhyw fenter ym myd busnes a thu hwnt.

Bydd y cynllun gradd newydd hwn yn eich cyflwyno i'r agweddau hanfodol ar Reoli Gwybodaeth fel maes pwnc pwysig a llwybr gyrfaol ynddo'i hun. Caiff ei gyfuno â sylfaen gadarn mewn Busnes a Rheolaeth, gan roi sgiliau a dealltwriaeth graidd ichi ym meysydd busnes ac amgylcheddau sefydliadol, a rheoli pobl a chyrff.

Ymhlith y cyfleoedd i fyfyrwyr Astudiaethau Gwybodaeth yn Aberystwyth mae:

- cael eich dysgu gan arbenigwyr yn eu maes, mewn adrannau a chanddynt enw da yn rhyngwladol ers tro byd am addysgu ac ymchwil ym maes astudiaethau gwybodaeth, a rheolaeth a busnes;
- astudio mewn tref a chanddi hanes toreithiog ym maes gwybodaeth ac ystod o gyrff diwylliannol y mae gan yr Adran Rheoli Gwybodaeth, gysylltiadau agos â hwy, gan gynnwys: Llyfrgell Genedlaethol Cymru (un o bum llyfrgell hawlfraint y DU), Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru, swyddfeydd archifau a chofnodion lleol ac Amgueddfa Ceredigion.

**Cyflogadwyedd**

Mae'r radd integredig hon yn cyfuno dau faes pwnc y ceir cysylltiad agos rhyngddynt, a bydd yn eich galluogi i ddatblygu gyrfa mewn amrywiaeth o broffesiynau ym myd busnes neu reoli gwybodaeth yn y sectorau preifat neu gyhoeddus. Neu efallai y cewch eich ysbrydoli i symud ymlaen i astudiaethau pellach, gan gynnwys un o'n cyrsiau sydd ag achrediad proffesiynol mewn Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth neu Guradu Digidol.

### Modiwlau

Isod ceir rhestr sy'n amlinellu'r modiwlau craidd y gellir eu hastudio ar y cwrs yma.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Foundations of Information Studies
- Fundamentals of Management and Business
- Fundamentals of Accounting and Finance
- Human Communication
- Marketing Principles and Contemporary Practice
- Data Analytics or Principles of Tourism Management.

**Yr ail a'r dryddydd flwyddyn:**

- Information Behaviour and Digital Literacy
- Social Informatics and Digital Ethics
- Resource Discovery and Digital Information Management
- Digitisation and Digital Preservation.

Sylwch, yn ystod eich ail a'ch trydedd flwyddyn, y byddwch yn gallu dewis o blith detholiad o fodiwlau dewisol a fydd yn ategu eich modiwlau craidd.

**Math o radd:** BA.

**Côd UCAS:** P117.

**Hyd:** 3 blynedd.

# Cyfrifiadureg a Gwyddor Gwybodaeth

## BA (Anrh)

Mae gwybodaeth ac effaith technoleg yn newid y byd yr ydym yn byw ynddo ar gyfradd hynod o chwim. Cynlluniwyd y radd newydd hon er mwyn cwrdd â heriau byd lle mae creu, defnyddio, rheoli ac effaith cynnwys digidol a thechnoleg gwybodaeth yn fwyfwy pwysig.

Mae'r newidiadau a geir yn sgil gwybodaeth ddigidol wedi'i rhwydweithio a'r cyfryngau cymdeithasol yn creu llu o gyfleoedd newydd o ran swyddi, a hynny yn y sectorau busnes, preifat, cyhoeddus a gwybodaeth, lle daw sgiliau a gwybodaeth ym maes cyfrifiadureg, creu cyfryngau digidol a rheoli gwybodaeth ynghyd. Mae llawer o'r gyrfaoedd hyn yn gofyn am ddealltwriaeth a'r gallu i ddadansoddi dynameg adnoddau ar-lein, gwybodaeth ddigidol, a'r cyfryngau cymdeithasol a diwylliannol, ynghyd â'r sgiliau i ddatrys problemau technegol cymhleth er mwyn eu curadu a'u rheoli.

Ymhlith y cyfleoedd i fyfyrwyr Cyfrifiadureg a Gwyddor Gwybodaeth yn Aberystwyth mae:

- cael eich dysgu gan arbenigwyr yn eu maes, mewn adrannau a chanddynt enw da yn rhyngwladol ers tro byd am addysgu ac ymchwil ym maes astudiaethau gwybodaeth, a chyfrifiadureg
- astudio mewn tref a chanddi hanes toreithiog ym maes gwybodaeth ac ystod o gyrff diwylliannol y mae gan yr Adran Rheoli Gwybodaeth, gysylltiadau agos â hwy, gan gynnwys: Llyfrgell Genedlaethol Cymru (un o bum llyfrgell hawlfraint y DU), Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru, swyddfeydd archifau a chofnodion lleol ac Amgueddfa Ceredigion
- cael mynediad i'r offer diweddaraf oll yn ein Hadran Gyfrifiadureg.

**Cyflogadwyedd**

Bydd y radd hon yn eich paratoi i allu dilyn gyrfa mewn amrywiaeth o broffesiynau ym myd y cyfryngau digidol a rheoli gwybodaeth yn y sector preifat neu gyhoeddus. Bydd graddedigion y rhaglen hon yn elwa yn sgil gwybodaeth am yr agweddau technegol, ymarferol a rheolaethol ar dechnoleg gwybodaeth ddigidol mewn amgylcheddau gwybodaeth.

## Modiwlau

Isod ceir rhestr sy'n amlinellu'r modiwlau craidd y gellir eu hastudio ar y cwrs yma.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Foundations of Information Studies
- Introduction to Programming
- Human Communication
- Rhaglennu gan ddefnyddio Iaith Gwrthrych-Gyfeiriadol/Programming Using an Object-Oriented Language
- Web Development Tools
- Hanfodion Datblygu Gwe
- Introduction to Computer Infrastructure.

**Yr ail a'r drydedd flwyddyn:**

- Information Behaviour and Digital Literacy
- Modelling Persistent Data
- Programming for the Web
- Social Informatics and Digital Ethics
- Resource Discovery and Digital Information Management
- Web Design and the User Experience or Software Engineering for the Web
- Knowledge and Information Management
- Digitisation and Digital Preservation.

Sylwch, yn ystod eich ail a'ch trydedd flwyddyn, y byddwch yn gallu dewis o blith detholiad o fodiwlau dewisol a fydd yn ategu eich modiwlau craidd.

**Math o radd:** BA.

**Côd UCAS:** P190.

**Hyd:** 3 blynedd.



# Cyrsiau Uwchraddedig

> MA Archives and Records Management
> MSc Digital Information and Media Management
> MA Information and Library Studies
> PGCert Digital Preservation

# Archives and Records Management

## MA

Byddwch yn dysgu egwyddorion a thechnegau proffesiynol ac yn magu'r sgiliau craidd a fydd yn eich galluogi i chwarae eich rhan wrth gadw, rheoli ac elwa ar adnoddau gwybodaeth a hanesyddol amhrisiadwy.

Mae'r cwrs yma wedi'i gynllunio er mwyn eich paratoi i weithio mewn unrhyw amgylchedd archifol neu reoli cofnodion. Mae'n darparu'r hyfforddiant a'r cymwysterau proffesiynol sy'n angenrheidiol er mwyn cael gweithio yn y meysydd proffesiynol hyn. Bydd cyfran sylweddol o'ch dysgu ar y cwrs hwn yn digwydd mewn ymweliadau astudio a gwaith maes, lle bydd angen i chi arsylwi a chysylltu'r hyn rydych wedi'i ddysgu â'r arfer mewn nifer o amgylcheddau cadw cofnod. Mae'r profiad ymarferol a geir cyn dechrau ar y cwrs yn cynnig sylfaen pwysig iawn i brofiad hyfforddi'r cwrs ei hun.

Mae'r cyfleoedd arbenigol yn Aberystwyth ar gyfer ein myfyrwyr yn cynnwys:

- prosiect ymarferol yn gweithio gydag archifwyr proffesiynol
- astudiaeth fanwl o baleograffeg gan ddefnyddio dogfennau mewn gwahanol ddwylo
- llwybrau paleograffeg ganoloesol ac ôl-ganoloesol
- hyfforddiant i ddefnyddio meddalwedd catalogio a chadwraeth safonol y diwydiant
- gweithdy traethawd hir dwys i gefnogi adnabod pynciau ymchwil a meithrin sgiliau ymchwil
- cynadleddau, ymweliadau a darlithoedd proffesiynol
- taith astudio 3-4 diwrnod yn Llundain.

**Cyflogadwyedd**
Bydd y cwrs hefyd yn rhoi cyfres eang o sgiliau gwaith cyffredinol ichi, megis ymchwil, dadansoddi, ysgrifennu, cyflwyno a rheoli, i sicrhau eich bod yn datblygu'n fwy cyflogadwy ar draws pob maes. Wrth raddio, byddwch wedi profi'ch gallu i adeiladu a mynegi syniadau'n effeithlon, siarad â ac ysgrifennu ar gyfer gwahanol fathau o gynulleidfaoedd, cloriannu a threfnu gwybodaeth, gweithio'n effeithiol gyda phobl eraill a gweithio o fewn i gyfnodau gwaith cyfyng ac erbyn dyddiadau penodol.

## Modiwlau

Ar y cwrs yma, byddwch yn astudio y modiwlau craidd canlynol:

- Recordkeeping: Theory and Contexts
- Recordkeeping: Processes and Practice
- Access, Outreach, and Advocacy
- Collections Care
- Archives and Records: Practical Project.

Am fwy o fanylion a'r wybodaeth diweddaraf, ewch i'n gwefan.

**Math o radd:** MA.

**Cod y cwrs:** P192.
P192D (Distance learning)

**Hyd:** 1 flwyddyn (llawn-amser) neu 2 mlynedd (rhan-amser) neu 2-5 blynedd (dysgu o bell).

# Digital Information and Media Management

## MSc

Bwriedir i'r radd hon roi hyfforddiant i chi yn y sgiliau uwch  sydd eu hangen i gasglu a churadu gwybodaeth electronig  a'i pharatoi i'w defnyddio gan unigolion a sefydliadau.

Bydd gennych ddealltwriaeth drylwyr o gymhlethdodau rheoli asedau digidol a chadwraeth ddigidol yn y tymor hir. Byddwch yn meistroli'r polisïau, y gweithdrefnau a'r dulliau llywodraethu sydd eu hangen i sicrhau uniondeb deunydd digidol dros amser, ac yn graddio â'r sgiliau a'r profiad i drin gwybodaeth ar gyfer sefydliadau beth bynnag fo'u maint, boed ar lefel genedlaethol, llywodraethol neu ryngwladol. Yn ogystal â chyfarwyddyd sy'n benodol i'r pwnc, cewch hyfforddiant cymedroli hefyd er mwyn i chi allu ymdrin â'r ddeialog rhwng rhanddeiliaid yn yr ecoleg wybodaeth ddigidol newydd. Gellir astudio'r pynciau canlynol ar y cwrs hwn: astudiaethau rheoli, rheoli a chadw gwybodaeth ddigidol, datblygu a disgrifio casgliadau archifau, systemau gwybodaeth mewn sefydliadau, pensaernïaeth gwybodaeth, a llywodraethu cofnodion a gwybodaeth.

Mae'r cyfleoedd arbenigol yn Aberystwyth ar gyfer myfyrwyr Curadu Digidol yn cynnwys:

- prosiect ymarferol yn gweithio gyda rheolwyr gwybodaeth ddigidol proffesiynol
- hyfforddiant i ddefnyddio meddalwedd catalogio a chadwraeth safonol y diwydiant
- addysg mewn ieithoedd codio perthnasol
- gweithdy ymarferol 3-4 diwrnod ar ddulliau ac offer
- gweithdy traethawd hir dwys i gefnogi adnabod pynciau ymchwil a meithrin sgiliau ymchwil
- cynadleddau, ymweliadau a darlithoedd proffesiynol
- taith astudio 3-4 diwrnod yn Llundain.

**Cyflogadwyedd**
Bydd y cwrs yn eich gwneud yn gyfarwydd â'r datblygiadau diweddaraf mewn curadu gwybodaeth ddigidol, o ran dulliau technolegol a damcaniaethol. Trwy gydbwyso'r damcaniaethau a'r arfer, byddwch mewn safle cadarn i lwyddo yn y farchnad swyddi, yn enwedig mewn sefydliadau neu gwmnïau sy'n gwerthfawrogi gweithwyr wedi'u hyfforddi'n dda i reoli eu hadnodd pennaf, sef gwybodaeth. Bydd y cwrs hefyd yn rhoi ichi gyfres o sgiliau gwaith mwy cyffredinol – mewn ymchwil, dadansoddi, ysgrifennu, cyflwyno a rheoli – i sicrhau eich bod yn datblygu'n fwy cyflogadwy ar draws pob maes.

### Modiwlau

Ar y cwrs yma, byddwch yn astudio y modiwlau craidd canlynol:

- Information Systems in Organisations
- Knowledge and Information Architecture
- Archives Collection Development and Description
- Digital Information: Management for Access and Preservation
- Records and Information Governance


Am fwy o fanylion a'r wybodaeth diweddaraf, ewch i'n gwefan.

**Math o radd:** MSc.

**Cod y cwrs::** P124.
P124D (Distance learning)

**Hyd:** 1 flwyddyn (llawn-amser) neu 2 mlynedd (rhan-amser) neu 2-5 blynedd (dysgu o bell).







# Digital Preservation

PGCert

Bwriedir i'r Dystysgrif Uwchraddedig hon mewn Cadwraeth Ddigidol alluogi rheolwyr gwybodaeth, llyfrgellwyr ac archifwyr cymwys, neu'r rhai sydd â phrofiad gwaith perthnasol, i feithrin dealltwriaeth drylwyr o lif gwaith, polisïau, gweithdrefnau a llywodraethu gwaith rheoli gwybodaeth ddigidol yn y tymor hir.

Byddwch yn dysgu dod o hyd i ffyrdd effeithiol a chynhyrchiol o weithio drwy ddealltwriaeth drylwyr o'r safonau technegol a threfniadol sydd wrth wraidd rheoli gwybodaeth ddigidol a chymhwyso technolegau TGCh yn briodol.

Erbyn diwedd eich cwrs, byddwch yn gallu dangos meistrolaeth ar brosesau technolegol llywodraethu gwybodaeth a chadwraeth ddigidol. Byddwch yn gwneud hyn drwy ddefnyddio eich sgiliau arbenigol mewn sefyllfaoedd go iawn drwy gydol y cwrs, a thrwy wneud yn fawr o'r cyfle hwn i ddysgu drwy brofiad, byddwch yn cwblhau'r cwrs â phrofiad ymarferol gwerthfawr o'r pwnc cynyddol bwysig hwn.

Mae'r cyfleoedd arbenigol yn Aberystwyth ar gyfer myfyrwyr Cadwraeth Ddigidol yn cynnwys:

- prosiect ymarferol yn gweithio mewn awyrgylch proffesiynol
- addysg mewn ieithoedd codio perthnasol;
- gweithdy ymarferol 3-4 diwrnod dewisol ar ddulliau ac offer
- hyfforddiant i ddefnyddio meddalwedd catalogio a chadwraeth safonol y diwydiant

Am fwy o fanylion a'r wybodaeth diweddaraf, ewch i'n gwefan.

**Math o radd:** PGCert.

**Cod y cwrs:** P123D.

**Hyd:** 2 mlynedd (Dysgu o Bell)

# Dysgu o bell

> Information and Library Studies (Distance Learning)

Caiff cyrsiau dysgu o bell eu strwythuro'n glir ac yn hyblyg, gan adael i fyfyrwyr gyfuno gwaith, cyfrifoldebau gofal ac addysgu, symud ymlaen yn eu pwysau, a chwblhau eu hastudiaethau o fewn 2-5 mlynedd. Mae digwyddiadau astudio preswyl yn ddechrau rhagorol i'r cyrsiau, gyda chymorth i baratoi traethawd hir, yn ogystal â fforwm ychwanegol ar gyfer ymwneud â gweithgareddau canolog y Brifysgol.

Byddwch yn cael deunyddiau pwnc ac ymarferion dysgu y gallwch weithio arnynt ar adegau sy'n gyfleus i chi. Does dim angen i chi fod ar gael ar gyfer dosbarthiadau ar-lein ar adegau penodol. Gall myfyrwyr bostio cwestiynau neu gysylltu â chydlynwyr modiwl trwy ein hamgylchedd dysgu rhithwir ar-lein, Blackboard, a hefyd gael cyngor am aseiniadau ar lefel yr Adran a'r Brifysgol.

Mae'r holl gyrsiau'n dechrau ag ysgol breswyl lle byddwch yn cyfarfod â staff yr adran a'ch cyd-fyfyrwyr. Byddwch yn cael gwybodaeth am symud ymlaen â'ch astudiaethau, sut caiff y cyrsiau eu cefnogi a'u gweinyddu, a chyflwyniad i fodiwlau craidd eich rhaglen. Hefyd ceir sesiynau gan wasanaethau gwybodaeth a llyfrgell y Brifysgol i fyfyrwyr dysgu o bell, sgiliau astudio a chymorth gyrfa. Hefyd cynhelir digwyddiadau cymdeithasol a sgyrsiau gan siaradwyr gwadd. Caiff myfyrwyr gyfarfodydd unigol gyda thiwtor personol fydd yn eu helpu i gynllunio a chwblhau eu hastudiaethau.

Caiff yr holl geisiadau dysgu o bell gan gynnwys cyrsiau byr a'r BSc ILS israddedig eu gweinyddu gan yr adran Derbyn Graddedigion -

I gael rhagor o wybodaeth ewch i: www.aber.ac.uk/cy/imla/distance/

# Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth (Dysgu o bell) BSc (Hons)

Achredir y cwrs hwn yn broffesiynol gan CILIP, Sefydliad Siartredig y Llyfrgellwyr a Gweithwyr Gwybodaeth.

Sefydlwyd y rhaglen unigryw hon yn 1994. Mae'n cydnabod gwerth y profiad seiliedig ar waith sydd gan staff llyfrgell a staff gwybodaeth nad oes ganddynt radd neu gymhwyster proffesiynol ond sy'n ymrwymo i yrfa yn y gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth. Mae'r rhaglen wedi'i strwythuro i annog darpar fyfyrwyr i fynd i addysg uwch, ac i sicrhau'r gefnogaeth academaidd a bugeiliol sydd ei hangen arnynt i lwyddo. Dyfernir 120 credyd cyntaf y radd i'r holl fyfyrwyr a dderbynnir ar y cynllun trwy 'ddysgu achrededig ar sail profiad blaenorol' yn seiliedig ar brofiad yn y gweithle ac unrhyw gymwysterau academaidd blaenorol (fel TGAU, Safon Uwch, NVQ a chymwysterau/cyrsiau eraill).

Gallwch gyfuno eich cyfoeth o brofiad ymarferol â'r wybodaeth ddamcaniaethol ddiweddaraf ar draws sbectrwm eang o feysydd pwnc cysylltiedig. Mae'r rhaglen yn darparu sgiliau a gwybodaeth i chi allu trefnu, trin ac adalw gwybodaeth yng nghyd-destun cymdeithas heddiw, gan eich paratoi ar gyfer rheoli ffynonellau a gwasanaethau gwybodaeth.

**Mae'r cynllun gradd hwn yn:**

- cynnig mynediad at gymhwyster proffesiynol i'r rheini sydd â lefel briodol o brofiad seiliedig ar waith sy'n wynebu rhwystrau at addysg draddodiadol, fel ymrwymiadau gwaith neu deulu a lleoliad daearyddol;
- caniatáu cynnydd hyblyg, sy'n eich galluogi i weithio yn eich amser eich hun, mor gyflym ag ydych chi'n ei ddymuno ond gyda chefnogaeth strwythuredig, a chysylltu eich dysgu â'r gweithle;
- cynnig cyflwyniad rhagorol i theori ac arfer Astudiaethau Gwybodaeth i'r rheini sy'n newydd i Addysg Uwch, ac mae'n gymhwyster proffesiynol yn ei hawl ei hun.

# Cyrsiau Byr Ar-lein

Rydyn ni'n cynnig amrywiaeth dethol o Gyrsiau Byr 10 ac 20 credyd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) trwy Ddysgu o Bell ar-lein.

**Israddedig**

> Ffocws ar y Plentyn: Llyfrgelloedd a Llenyddiaeth (10 credyd)
> Llythrennedd Gwybodaeth (20 credyd)
> Rheoli Archifau: Egwyddorion a Thechnegau (20 credyd)
> Gwybodaeth Ddigidol: o Ddarganfod i Gyflenwi (10 credyd)
> Pensaernïaeth Gwybodaeth a Dealltwriaeth (20 credyd)
> Cyflwyniad i Lyfrgellyddiaeth Llyfrau Prin (10 credyd)
> Lyfrgellyddiaeth Llyfrau Prin Uwch (10 credyd)

**Uwchraddedig**

> Llyfrgellyddiaeth Llyfrau Prin 1 (10 credyd)
> Llyfrgellyddiaeth Llyfrau Prin 2 (10 credyd)
> Rheoli Archifau: Egwyddorion a Thechnegau (20 credyd)
> Sgiliau Llawysgrif: Paleograffeg a Diplomyddol Ôl-Ganoloesol (10 credyd)
> Cadwraeth Ddigidol (10 credyd)
> Pensaernïaeth Gwybodaeth a Dealltwriaeth (20 credyd)
> Gwybodaeth Ddigidol: o Ddarganfod i Gyflenwi (10 credyd)
> Trefnu ac Adalw Gwybodaeth (20 credyd)
> Cyfraith Cydymffurfio a Moeseg (20 credyd)
> Ffocws ar y Plentyn: Llyfrgelloedd a Llenyddiaeth (10 credyd)

- Mae'r cyrsiau hyn yn hyblyg ac mae tri chofrestriad pob blwyddyn – ym mis Ionawr, Ebrill a Medi. Gall myfyrwyr hefyd weithio yn eu pwysau o fewn i gyfnod cofrestru'r cwrs o chwe mis a dewis a ydynt am gwblhau'r asesiad sydd â chredydau.
- Mae pob Cwrs Byr yn berthnasol yn broffesiynol ac wedi'i gynllunio i ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau ar gyfer gweithleoedd gwybodaeth arbenigol.
- Mae'r deunyddiau cwrs ar gael trwy amgylchedd dysgu rhithiwr pwrpasol, ynghyd â chyngor a chefnogaeth am sgiliau astudio, ac amrywiaeth eang o adnoddau ar-lein y Brifysgol. Mae tiwtoriaid y cwrs ar gael hefyd i ymgynghori â nhw.
- Ar ddiwedd y cwrs gallwch dderbyn naill ai 'cofnod o gyfranogi yn y cwrs' neu 'cofnod o gwblhau'r cwrs' gyda chredydau, gan ddibynnu a ydych chi'n cwblhau'r asesiad ffurfiol ar gyfer y Cwrs Byr yn llwyddiannus. Mewn rhai achosion, mae hefyd yn bosibl trosglwyddo nifer o gredydau Cwrs Byr i gyrsiau Israddedig ac Uwchraddedig yn yr Adran.







*Utrecht, The Netherlands.*



# Cyfleoedd i astudio dramor

Rydym yn eich annog yn gryf i ystyried astudio dramor fel rhan o'ch gradd - am un semester ym Mlwyddyn 2 fel rhan radd tair blynedd, neu am flwyddyn academaidd gyfan fel rhan o'n gradd Hanes gyda blwyddyn integredig yn astudio dramor.

Yn Aberystwyth, cewch ddewis rhwng dau lwybr: y cynllun Erasmus+ lle cewch astudio yn un o brifysgolion Ewrop, sy'n bartneriaid i ni, gyda chymhelliad ariannol ar ffurf grant; neu Rhaglen Cyfnewid Rhyngwladol y Brifysgol os ydych yn dymuno astudio mewn gwlad y tu hwnt i Ewrop. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i https://www.aber.ac.uk/cy/study-abroad/

## Erasmus+

**Y Weriniaeth Tsiec**
> Prifysgol Charles, Prague

**Ffrainc**
> Prifysgol Bordeaux Montaigne, Pessac
> Prifysgol Paris-Sorbonne
> Prifysgol La Rochelle

**Yr Almaen**
> Prifysgol Ewropeaidd Viadrina, Frankfurt
> Prifysgol Goettingen

**Iwerddon**
> Prifysgol Cenedlaethol Iwerddon, Galway
> Mary Immaculate College, Limerick
> Prifysgol Maynooth
> Coleg Prifysgol Dulyn

**Yr Iseldiroedd**
> Prifysgol Utrecht

**Norwy**
> Prifysgol Tromso

**Gwlad Pwyl**
> Prifysgol Wroclaw

**Portiwgal**
> Prifysgol Coimbra

## Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol

**Canada:**
> Prifysgol Dalhousie, Halifax, Nova Scotia
> Prifysgol McGill, Montreal
> Prifysgol Thompson Rivers
> Prifysgol Guelph, Ontario
> Prifysgol Ottawa
> Prifysgol Victoria

**Awstralia**
> Prifysgol Deakin
> Prifysgol Griffith
> Prifysgol Murdoch, Perth
> Prifysgol De Cymru Newydd, Sydney
> Prifysgol Newcastle

**Azerbaijan**
> Prifysgol ADA, Baku

**Hong Kong**
> Prifysgol y Bedyddwyr, Hong Kong

**Japan**
> Prifysgol Rikkyo, Tokyo

**Gwlad Thai**
> Prifysgol Thammasat

**UDA:**
> Y Brifysgol Americanaidd

> Prifysgol Daleithiol Boise
> Prifysgol Daleithiol Bowling Green
> Prifysgol Carroll
> Prifysgol Purdue
> Prifysgol Queen's Charlotte
> Prifysgol Alabama
> Prifysgol Georgia
> Prifysgol Louisville, Kentucky
> Prifysgol Montana
> Coleg Utica
> Prifysgol Daleithiol Washington
> Westminster College, Missouri
> Prifysgol Willamett

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

